CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fawrth Hydref 3ydd 2017 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Ann O Vaughan

Presennol: Einir Williams (Is-Gadeirydd), Diane M Roberts, R Emlyn Williams, Clwyd Roberts, Gwydion Jones, Elen Edwards, Cyng Garffild L Lewis a'r Clerc

71.0 Cyflwyniad Mr Gwynne Jones, Cartrefi Conwy – yn anffodus ni fu'n bosib i Mr Jones fynychu'r cyfarfod ar y munud olaf.

71.1 DATGAN CYSYLLTIAD – mynegodd Diane Roberts gysylltiad ag Eitem 10 Cwpan Sioe Arddio ac Emlyn Williams ac Einir Williams gysylltiad ag Eitem 9 Cwpan Sioe Gwytherin.

71.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 12fed Medi 2017 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu bod yn gywir.

71.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
71.3.1 AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL (70.2.2) Darllenwyd llythyr Prif Weithredwr y Comisiwn Ffiniau yn nodi bod rhaid i'r Comisiwn gynnal arolwg bob deng mlynedd yn ôl y gyfraith ac "Wrth lunio'r trefniadau etholiadol, nid yw'r costau na'r arbedion i Gyngor yn ystyriaeth mewn arolwg. Wrth gynnal arolwg, mae'n ofynnol i'r Comisiwn sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, a rhaid iddo sicrhau bod pob pleidlais yn dwyn yr un gwerth ym mhob ward mewn ardal prif gyngor, hyd y gellir."
71.3.2 CYFRANIAD ARIANNOL (70.2.3 a 69.9) gan nad yw Grace Charles yn bwriadu dilyn cwrs arbennig ar hyn o bryd nid fydd y Cyngor yn cyfrannu (h.y. canslo'r siec o £100)
71.3.3 BAND EANG GWYTHERIN (70.2.6) – mynegodd Cyng Garffild Lewis bod anhawster cael ymateb gan BT ar hyn o bryd.
71.3.4 PONT AFON GALL (70.3.2) – PENDERFYNWYD i ddiolch i Mr Byn Shilland am ei waith gyda'r bont ac i ofyn a yw'r gwaith wedi ei orffen ar y wal a phryd fydd y gwaith ar yr afon yn cael ei gwblhau i rwystro'r afon rhag bwyta'r tir wrth y bont.
71.3.5 ARWYDDION 20 M.Y.A YN LLANGERNYW – darllenwyd llythyr Mr Vic Turner, Adran Traffig yn nodi y byddai'n costio degau o filoedd i arafu traffig lawr i 20 mya yn Llangernyw oherwydd bod y cyfartaledd cyflymder ar hyn o bryd yn 27 mya drwy'r pentref. PENDERFYNWYD y dylem fel cymuned gynnal ymgyrch a chynigiodd Einir Williams sôn wrth Ysgol Bro Cernyw a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ynglŷn a chreu arwyddion arafu traffig gan y plant i'w gosod ger y briffordd.
71.3.6 COED WEDI GORDYFU RHWNG PLAS YN TROFARTH A HENFRYN (69.17.2) – angen tynnu sylw'r Cyngor at hyn eto.

71.4 MATERION CYNLLUNIO
71.4.1 Cais Cynllunio Rhif 0/44378 Amrywiad i amodau 5,7,8,10 a 18 caniatad cynllunio 0/43171 (addasiadau a thrawsnewid adeiladau fferm i ffurfio 6 uned llety gwyliau (gan gynnwys 1 uned staff ac 1 uned hygyrch), mynediad, parcio, gwaith trin a gwaith ategol) yn Hendre Ddu, Llangernyw gan L James. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.

71.4.2 Cais Cynllunio Rhif 0/44424 Estyniad deulawr gydag ystafell ddydd ar y llawr gwaelod a phrif ystafell wely ar y llawr cyntaf, ac estyniad unllawr to pwyso ar gyfer ystafell gyfelustodau a man cawod yn Tu Hwnt i'r Afon Cottage, Llangernyw gan Messrs Waters – PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

71.5 DATGANIAD CYFRIFO A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2016-17 - cyflwynwyd y ffurflen flynyddol wedi ei harchwilio i'r Cyngor Cymuned ac fe'i cymeradwywyd a'i derbyn. Nid oedd sylwadau pellach gan yr Archwilydd Allanol. Byddai anfoneb am y gwaith yn dilyn yn fuan. PENDERFYNWYD rhoi rhodd o £50 i Mrs G Cooper am weithredu fel archwilydd mewnol.

71.6 RHODD ER COF AM Y DIWEDDAR TECWYN EVANS – daeth Emlyn Williams â chwpan enghreifftiol i'r cyfarfod a PHENDERFYNWYD prynu cwpan gwerth tua £80 i'w chyflwyno i Sioe Amaethyddol Gwytherin fel cwpan barhaol. Penderfynwyd ar y geiriad – 'Cwpan y Cyngor Cymuned er cof am y Cyng. Tecwyn Evans'. Byddai Emlyn Williams yn trefnu cael y gwpan.

71.7 CWPAN SIOE ARDDIO LLANGERNYW – oherwydd bod y gwpan bresennol gan y Cyngor angen ei hadnewyddu PENDERFYNWYD i brynu cwpan fechan gwerth tua £40 yn ei lle. Diolchwyd i Emlyn Williams am ofalu am hon hefyd.

71.8 CYTUNDEB MABWYSIADU BLYCHAU FFÔN BT – cafodd Diane Roberts olwg ar y Cytundeb a'r unig bwynt a gododd oedd ei bod yn bosib bod plwm yn y paent ar y blychau. Oherwydd bod bwriad i symud blwch Llangernyw i'r Ysgol PENDERFYNWYD holi ymhellach ynglŷn ag arbrofi a oedd plwm yn y paent e.e. gyda Prifysgol Glyndwr, Prifysgol Bangor, Cyngor Conwy, neu holi BT.

Gadawodd Elen Edwards y cyfarfod.
71.9 PARTNERIAETH BAGIAU HALEN CBSC – roedd y Cyngor sirol yn awyddus i ni ymuno â'r cynllun bagiau halen at y gaeaf lle byddai'r Cyngor Cymuned yn derbyn bagiau halen ac wedyn byddent hwy yn gyfrifol am wasgaru mewn mannau arbennig. Wedi trafodaeth PENDERFYNWYD i beidio ymuno â'r cynllun.

71.10 CYFARFOD CYHOEDDUS I GROESAWU EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2019 – cafwyd gwahoddiad i'r cyfarfod a gynhelir nos Iau Hydref 12fed yn Glasdir, Llanrwst. Roedd Elen Edwards ac eraill yn bwriadu mynychu.

71.11 GOHEBIAETH – Trafodaethau ar Unigrwydd – i'w anfon i'r aelodau. E-ddeiseb Cyng Mike Priestley – roedd trafferth mynd ar y linc - y Clerc i'w anfon eto.

71.12 SWYDD Y CLERC – oherwydd bod y Clerc yn methu cario ymlaen gyda'r gwaith penderfynwyd galw is-bwyllgor i drafod y gwaith gweinyddol (Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Elen Edwards, Gwydion Jones a'r Clerc). Penderfynwyd cysylltu â chynghorau eraill i roi hysbysrwydd i'r swydd, y papurau bro a lleol.net

71.13 MATERION LLEOL
71.13.1 Dwy gamfa ger Bryn Hafod, Gwytherin heb eu cwblhau – y Clerc wedi atgoffa'r contractiwr yn ddiweddar.
71.13.2 Mwsog yn beryglus ar lwybr yr Ardd Goffa, Llangernyw (Cyngor Conwy).
71.13.3 Mwsog ar lwybr Mynwent Llangernyw

71.13.4 Pont droed dros yr afon ger Ddol Bach, Llangernyw angen sylw.
71.13.5 Angen trefnu diwrnod swyddogol i glirio sbwriel eto.
71.13.6 Cwrs Cynllunio Cymunedol yn Abergele – Diane Roberts yn awyddus i fynd.
71.13.7 Arwydd stad Fedwen Arian angen ei adnewyddu.
71.13.8 Angen clirio ffosydd rhwng Gell a Dolgoch, Llangernyw cyn y rhew.
71.13.9 Cafwyd cais am fainc i'w gosod ger Mynwent Pandy Tudur – awgrymwyd i'r capel wneud cais am grant i'r Gronfa.
71.13.10 Baw ci ym Mharc Aelas a chi yn rhydd ar y stad.

71.14 BILIAU

D Evans (Chweched toriad Mynwentydd)	£380
Costau Gweinyddol	£895.61
Cyllid y Wlad (TWE)	£10.60
Dŵr Cymru (Mynwent Llangernyw)	£15.91

Daeth y cyfarfod i ben am 9.50 yr hwyr.

Cymeradwywyd y Cofnodion ..Gwyn Williams..... Dyddiad ..24/10/17.....

A meeting of the Community Council was held on Tuesday October 3rd 2017 at 7:30 at Canolfan Bro Cernyw

Apologies: Ann O Vaughan

Present: Einir Williams (Vice-Chair), Diane M Roberts, R Emlyn Williams, Clwyd Roberts, Gwydion Jones, Elen Edwards, Cllr Garffild L Lewis and Clerk

71.0 Presentation from Mr Gwynne Jones, Cartrefi Conwy - unfortunately Mr Jones was unable to attend the meeting at last minute.

71.1 DECLARATIONS OF INTEREST - Diane Roberts declared an interest in Item 10 Horticultural Show Cup and Emlyn Williams and Einir Williams declared interests in Item 9 Gwytherin Show Cup.

71.2 MINUTES - the minutes of the meeting held on September 12th 2017 were looked at and it was unanimously RESOLVED that they were correct.

71.3 MATTER ARISING FROM THE MINUTES
71.3.1 REVIEW OF ELECTORAL ARRANGEMENTS (70.2.2) A letter from the Boundary Commission's Chief Executive was read out explaining that the Commission has to hold a survey every ten years by law and "When drawing electoral arrangements, costs or savings to a Council are not a consideration. When holding a survey, it is required that the Commission ensure effective and suitable local governance, and must ensure that every vote holds the same value in every ward in a main council area, so long as it can."
71.3.2 FINANCIAL CONTRIBUTION (70.2.3 and 69.9) seeing as Grace Charles no longer intends to attend the special course at present, the Council won't be contributing (i.e. cancel the £100 cheque)

71.3.3 GWYTHERIN BROADBAND (70.2.6) - Cllr Garffild Lewis explained difficulties in trying to get a response from BT.
71.3.4 PONT AFON GALL (70.3.2) - it was RESOLVED to thank Mr Bryn Shilland for his work with the bridge and to ask whether the work on the wall has finished and when will the work by the river be completed to prevent the river from eating the land by the bridge.
71.3.5 20 MPA SIGNS IN LLANGERNYW - a letter by Mr Vic Turner, from the Traffic Department, was read out explaining it would cost tens of thousands to slow down traffic to 20mpa in Llangernyw because the average speed through the village at present is 27mpa. It was RESOLVED that we as a community should hold a campaign and Einir Williams offered to get in touch with Ysgol Bro Cernyw and the Parent Teacher Association to discuss the possibility of getting the children to create slow down signs to be installed by the main road.
71.3.6 OVERGROWN TREES NEAR PLAS YN TROFARTH AND HENFRYN (69.17.2) - need to bring this to the Council's attention again.

71.4 PLANNING MATTERS
71.4.1 Planning Application No 0/44378 Variation to conditions 5,7,8,10 and 18 planning approval 0/43171 (adaptations and conversion of farm buildings to create 6 holiday home units (including 1 staff unit and 1 accessible unit), entrance, parking, treatment and ancillary work) at Hendre Ddu, Llangernyw by L James. It was RESOLVED unanimously to support the application.
71.4.2 Planning Application No 0/44424 Two storey extension with a day room on the ground floor and master bedroom on the first floor, and one storey extension with leaning roof for utility room and shower area at Tu Hwnt i'r Afon Cottage, Llangernyw by Messrs Waters - it was RESOLVED to support the application.

71.5 STATEMENT OF ACCOUNTING AND ANNUAL GOVERNANCE STATEMENT 2016-17
- the annual form was presented to the Community Council following an audit and it was resolved to accept it. There were no further comments from the External Auditor. An invoice for the work to be followed soon. It was RESOLVED to give Mrs G Cooper £50 for taking on the role as internal auditor.

71.6 DONATION IN MEMORY OF THE LATE TECWYN EVANS - Emlyn Williams brought an exemplar cup to the meeting and it was RESOLVED to buy a cup estimated at around £80 to present to Gwytherin Agricultural Show as a permanent cup. The following wording was agreed on - 'The Community Council's Cup in memory of Cllr Tecwyn Evans'. Emlyn Williams will make arrangements for the cup.

71.7 LLANGERNYW HORTICULTURAL SHOW CUP - because the current cup from the Council needs to be renewed, it was RESOLVED to by a small cup for around £40 instead. The Council thanked Emlyn Williams for also taking care of this.

71.8 BT TELEPHONE KIOSKS ADOPTION CONTRACT - Diane Roberts looked over the contract and the only point raised is that it's possible that there may be lead in the paint on the kiosks. Because the intention is to move the kiosk in Llangernyw to the school's site it was RESOLVED to make further queries about testing whether there is lead in the paint, e.g. contact Glyndŵr University, Bangor University, Conwy Council, or ask BT.

Elen Edwards left the meeting.
71.9 CCBC SALT BAG PARTNERSHIP - the County Council was keen for us to join the salt bag scheme for the winter where the Community Council would receive salt bags and would then be

responsible for spreading the salt in certain areas. After discussion is was RESOLVED not to join the scheme.

71.10 PUBLIC MEETING TO WELCOME THE NATIONAL EISTEDDFOD 2019 - an invitation was received to attend a meeting to be held on Thursday October 12th in Glasdir, Llanrwst. Elen Edwards and others intend on going.

71.11 CORRESPONDENCE - Discussions on isolation - to be sent to the members. Cllr Mike Priestley's e-campaign - difficulties with the link - Clerk to resend.

71.12 CLERK POSITION - because the Clerk is unable to continue with the work it was RESOLVED to hold a sub-committee meeting to discuss the administration work (Chair, Vice-Chair, Elen Edwards, Gwydion Jones and Clerk). It was resolved to contact other councils, local papers and lleol.net to advertise the position.

71.13 LOCAL MATTERS
71.13.1 Two stiles near Bryn Hafod, Gwytherin haven't been completed - Clerk has reminded the contractors recently.
71.13.1 Moss is dangerous on the Memorial Garden's path, Llangernyw (Conwy Council).
71.13.3 Moss on Llangernyw Cemetery's path
71.13.4 Foot bridge over the river at Ddol Bach, Llangernyw needs to be looked at.
71.13.5 Need to arrange an official day for litter picking again.
71.13.6 Community Planning Course in Abergele - Diane Roberts keen to go.
71.13.7 Fedwen Arian estate sign needs to be renewed.
71.13.8 Need to clear the ditches between Gell and Dolgoch, Llangernyw before any icy weather.
71.13.9 Request for a bench to be installed near Pandy Tudur Cemetery - it was suggested the chapel request a grant from the Fund.
71.13.10 Dog fouling in Parc Aelas and roaming dog on the estate.

71.14 BILLS

D Evans (Sixth Cemeteries cut)	£380
Admin Costs	£895.61
Inland Revenue (PAYE)	£10.60
Welsh Water (Llangernyw Cemetery)	£15.91

The meeting concluded at 9:50pm.

Minutes Approved...Gwyn Williams..... Date ..24/10/17.....